

Adnodd 4: Pip Woolf a'r Woollenline (2009-2015)

Yn 2009, cychwynnodd yr Artist Pip Woolf ar daith i adfer mynydd, ar ôl canfod y graith ddu ar ben mynydd uchel Pen Trumau, yn y Mynyddoedd Du ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Cafodd y mynydd ei losgi mewn tân mawr yn ystod haf tanbaid 1976, ac nid yw'r planhigion arbennig a oedd yn arfer tyfu ar y pridd mawnog du erioed wedi dychwelyd. Mae'n cymryd 1000 o flynyddoedd i fetr o fawn ffurfio. Dyma faint o fawn a gollwyd eisoes ar gyfartaledd, ar draws yr ardal 70,000 metr sgwâr ar Ben Trumau.

Lle nad oes llystyfiant, mae'r mawn yn ddiameddiffyn iawn. Mewn tywydd sych, mae'r mawn yn cael ei chwythu i ffwrdd ...ac mewn tywydd gwlyb, mae'n cael ei olchi i ffwrdd yn hawdd. Mae'r symudiad cyson hwn ar haenau uchaf y mawn yn ei gwneud yn anodd i blanhigion ymsefydlu a thyfu.

Meddyliodd Pip tybed...

- A allai gwlan gwyn y defaid sy'n pori ar y mynydd droi'r graith ddu yn wyrdd?
- A allai llawer o bobl yn gweithio gyda'i gilydd ac yn gwneud ymdrechion bach, adfer y mynydd?

Cytunodd Bwrdd Marchnata Gwlan Prydain i roi 350kg o wlan wedi'i olchi i Pip. Gan weithio gyda gwirfoddolwyr yn ystod gaeaf 2010, trodd Pip y gwlan yn ffelt ac, fel arbrawf, ychwanegodd hadau grub i weld a fydden nhw'n tyfu. Gwnaeth Pip a'r gwirfoddolwyr ddigon o ffelt i greu llinell 300 metr o hyd. Ym mis Mawrth fe'i cariwyd i fyny'r mynydd a'i osod yn ei le gyda phegiau, gan gysylltu'r darnau bach o llystyfiant a oedd wedi goroesi'r tân.

Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, cafodd Pip y syniad o wneud selsig gwlan – rhwydi wedi'u llenwi â gwlan i'w rhoi yn y nentydd bach a oedd yn croesi ei llinell gyntaf. Y syniad oedd y byddai'r selsig yn helpu i arafu unrhyw ddŵr a oedd yn achosi i fwy o fawn olchi i ffwrdd (erydiad).

Roedd gwneud y ffelt â llaw wedi golygu llawer o waith, felly yn y blynyddoedd dilynol, llwyddodd Pip i gael arian i brynu ffelt wedi'i wneud â pheiriant gan The Woolly Shepherd, cwmni sy'n arbenigo mewn dod o hyd i ddefnydd da ar gyfer 'gwastraff' (gwlan).

Gan ddefnyddio ceffylau i gario'r llwyth mawr o wlan, dringodd Pip a'r gwirfoddolwyr y mynydd a gosod y ffelt a mwy o selsig gwlan yn eu lle gyda phegiau.

Dilynwyd y llinell gyntaf o ffelt, a'i defnyddio fel canllaw ar gyfer y llinellau newydd a ychwanegwyd yn 2011 a 2012. Fodd bynnag, yn 2013, penderfynodd Pip greu llinell droellog mewn ardal nad oedd yn cynnwys unrhyw llystyfiant o gwbl.

Rhwng 2009 a 2015, mae dros fil o bobl wedi helpu. Roedden nhw'n cynnwys ffermwyr, cerddwyr, gwylwyr adar ac artistiaid. Cafwyd llawer o sgysiau ymhlith pobl sy'n pori eu hanifeiliaid ar y tir, cadwraethwyr, artistiaid, teuluoedd, myfyrwyr a phobl sy'n hoff o geffylau.

Tynnodd Pip ffotograffau, ysgrifennodd flog, gweithiodd gydag ysgolion ac artistiaid eraill a oedd â diddordeb yn y mynydd, creodd arddangosfeydd ac yn olaf gwnaeth ddarlun wedi'i ffilmio o rai o'r llu o bobl a oedd wedi helpu i greu'r *Woollenline*.

Y Woollenline heddiw

Nid yw Pip yn ychwanegu gwlân at y mynydd mwyach. Yn hytrach, mae wedi plannu planhigion mynydd mewn mannau lle y cânt eu hamddiffyn gan y gwlân. Bydd yn parhau i ymweld â Phen Trumau o leiaf unwaith y flwyddyn i weld sut mae'r graith yn newid.

Cyn iddi ddechrau, roedd pen y mynydd wedi bod yn ddu ers 30 mlynedd. Mae'n debygol o gymryd cryn amser iddo adfer yn llawn. Ond wrth i amser fynd heibio, mae llinellau gwynion y gwlân yn diflannu. Mae bywyd planhigion, a amddiffynnir gan y gwlân, bellach yn aildyfu ar y tir a oedd unwaith yn noeth.

Mae gan artistiaid hanes hir o ymateb i'r dirwedd. Mae gwaith Pip Woolf yn ein hannog i feddwl am ein cysylltiad â'r tir ac yn gwneud i ni feddwl am yr hyn rydym yn ei werthfawrogi.

Rhagor o wybodaeth:

Blog Pip -<http://woollenline.wordpress.com/>

Pan oedd Pip yn yr ysgol, nid oedd yn hoffi mathemateg ryw lawer. Ond yn ystod blynyddoedd y prosiect bu'n rhaid iddi wneud cymaint o gyfrifiadau i helpu i'w wneud yn bosibl nes iddi hyd yn oed ddechrau breuddwydio am fathemateg....